Estyn

Mehefin 2021



# Gwaith ymgysylltu

Diweddariad ar ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

Tymor yr haf 2021

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o 39 galwad ymgysylltu ac ychydig iawn o ymweliadau a wnaed ag ysgolion arbennig a gynhelir ac UCDau rhwng dechrau mis Chwefror 2021 a diwedd mis Mai 2021.  Trwy gydol y cyfnod hwn, mae arweinwyr yn cadarnhau bod eu hysgolion a'u UCDau wedi aros ar agor, yn cynnwys trwy gydol y cyfnod clo diweddaraf, i ddarparu addysg ar gyfer dysgwyr bregus a phlant gweithwyr hanfodol, yn unol â chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru.

Fel y nodom yn ein hadroddiad blaenorol, roedd amrywioldeb sylweddol ledled Cymru o ran cyfran y disgyblion y nodwyd eu bod yn gymwys i fynychu'r ysgol neu'r UCD ar gyfer darpariaeth ar y safle.  O ganlyniad i'r cyfyngiadau a osodwyd ar gapasiti gan ganllawiau iechyd a diogelwch, nid oedd ysgolion arbennig a gynhelir yn benodol yn gallu ymateb yn llawn i geisiadau rhieni am addysg ar safle'r ysgol.  Yn ychwanegol, yn ôl dehongliad awdurdodau lleol o ganllawiau Llywodraeth Cymru, dylai'r lleoliadau hyn aros ar agor i gefnogi dysgwyr bregus yn wahanol ledled Cymru.  Trosglwyddodd yr holl ysgolion ac UCDau yn ôl i gynnig darpariaeth lawn ar y safle erbyn dechrau tymor yr haf.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd â phenaethiaid ac uwch arweinwyr yn ystod galwadau neu ymweliadau ymgysylltu.  Y prif ffocws ar gyfer trafod oedd sut mae ysgolion ac UCDau yn parhau i gefnogi a hyrwyddo lles a dysgu eu disgyblion.

Mae cyfrannau'n ymwneud â'r sampl o 39 ysgol ac UCD y cysylltom â nhw yn ystod y cyfnod hwn.

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Negeseuon allweddol | 1 |
| Canfyddiadau manwl a chameos | 4 |
| Hyrwyddo lles disgyblion a staff | 4 |
| Hyrwyddo dysgu | 8 |
| Darpariaeth a therapi | 16 |
| Dysgu proffesiynol | 18 |
| Arweinyddiaeth | 19 |










## Negeseuon allweddol

### Hyrwyddo lles disgyblion a staff

Mae arweinwyr bron ym mhob ysgol arbennig ac UCD yn cadarnhau eu bod wedi parhau i flaenoriaethu lles disgyblion, teuluoedd, a staff trwy gydol y cyfnod hwn. Mae ychydig o arweinwyr yn pwysleisio ei bod yn rhy gynnar i ddweud p’un a oes unrhyw effeithiau tymor hir sylweddol wedi bod o’r pandemig ar les disgyblion. Mae lleiafrif o arweinwyr ar draws y ddau sector yn nodi ystod o enghreifftiau lle maent yn credu bod lles disgyblion wedi dioddef o ganlyniad i ffactorau’n ymwneud â’r pandemig.

Mae bron pob arweinydd yn disgrifio’r pwysau sydd wedi wynebu staff ers dechrau’r pandemig, ac yn canmol gwaith caled, gwydnwch, ac ymroddiad personol parhaus eu staff yn ystod y cyfnod hwn.

Mewn UCDau ac ysgolion arbennig sy’n darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol, mae arweinwyr yn disgrifio achosion cynyddol o gamddefnyddio sylweddau, hunan-niweidio, anhwylderau bwyta a tharfu ar batrymau cysgu. Mae ychydig o arweinwyr yn nodi cynnydd yng ngorbryder disgyblion a dirywiad yn agweddau disgyblion at eu hyder a’u hunan-barch eu hunain.

### Hyrwyddo dysgu

Dywed bron pob arweinydd eu bod wedi cryfhau trefniadau ar gyfer dysgu cyfunol a dysgu o bell dros y flwyddyn ddiwethaf trwy ddarparu cyfuniad o addysgu wyneb yn wyneb, sesiynau ar-lein a sesiynau byw, a danfon adnoddau i’r cartref.

At ei gilydd, mae’r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion arbennig a llawer o arweinwyr UCDau yn cadarnhau bod ymgysylltiad disgyblion â dysgu wedi parhau’n gryf trwy gydol tymor y gwanwyn. Dywed ychydig o arweinwyr UCDau ac ysgolion arbennig sy’n darparu ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl nad oedd disgyblion hŷn bob amser yn ymgysylltu â dysgu cyfunol na dysgu o bell yn gyson dda.

Mae arweinwyr yn parhau i amlygu’r heriau sy’n wynebu ysgolion ac UCDau oherwydd bod y cwricwlwm wedi’i gyfyngu o ganlyniad i gyfyngiadau ar ddysgu oddi ar y safle, a’r effaith mae hyn wedi’i chael ar ddatblygu medrau disgyblion.

Mae arweinwyr yn cadarnhau bod profiadau fel dysgu galwedigaethol, cyfle i ddefnyddio cyfleusterau hamdden a chyfleusterau cymunedol eraill yn dechrau ailgychwyn. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith a mynychu cyrsiau mewn colegau addysg bellach yn parhau i fod yn gyfyngedig.

Mae llawer o arweinwyr ar draws y ddau sector yn parhau i ddweud sut maent yn gwneud defnydd cynyddol o’u tir ar gyfer ymarfer corff a gweithgareddau eraill i ddysgu yn yr awyr agored, yn ogystal â’u darpariaeth ar y safle i gryfhau addysgu medrau galwedigaethol ac ymarferol.

Mae llawer o arweinwyr yn parhau i fynegi pryderon am y tarfu ar drefniadau i gefnogi trosglwyddo disgyblion hŷn i addysg bellach a chyrchfannau eraill yn esmwyth ac effeithiol. Dywedant fod cynnydd llawer o ddisgyblion mewn meysydd fel eu medrau cyfathrebu, rhifedd, annibyniaeth a'u medrau cymdeithasol wedi dioddef dros gyfnod y pandemig.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cadarnhau bod athroniaeth, egwyddorion a phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn gweddu'n dda i'r ymagwedd at y cwricwlwm a ddefnyddir gan ysgolion ac UCDau wrth ddiwallu anghenion eu disgyblion. Mae dysgwyr yn nodi bod cynnydd o ran ei roi ar waith ar gamau datblygu amrywiol.

## Darpariaeth a therapi

Mae arweinwyr ar draws y ddau sector yn cadarnhau bod prosesau statudol ac adolygiadau blynyddol yn parhau i ddigwydd o fewn y cyfnod angenrheidiol.

Mae arweinwyr ar draws y ddau leoliad yn nodi bod nifer gynyddol o wasanaethau therapiwtig arbenigol wedi ailddechrau darparu cymorth wyneb yn wyneb ar y safle. Mae ychydig o arweinwyr ar draws y ddau sector yn rhwystredig yn sgil dulliau anghyson o ran cymorth a therapi ar y safle ar draws gwahanol wasanaethau arbenigol, ac mewn gwahanol awdurdodau lleol. Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr UCDau yn disgrifio'r modd mae eu hanawsterau o ran gallu defnyddio gwasanaethau wedi achosi iddynt gryfhau eu darpariaeth therapiwtig eu hunain.

## Dysgu proffesiynol

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ar draws y ddau sector yn cadarnhau eu bod wedi parhau i ddarparu ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol yn ystod y cyfnod hwn.

Dywed llawer o arweinwyr eu bod wedi blaenoriaethu datblygu medrau staff i gefnogi anghenion corfforol, iechyd meddwl, cymdeithasol ac emosiynol uniongyrchol disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn y cyfnod clo diweddaraf.

Mae llawer o arweinwyr ysgolion ac UCDau yn disgrifio'r modd y mae dysgu proffesiynol wedi ymestyn dealltwriaeth staff o strategaethau addysgu hefyd i gefnogi disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Cafwyd cyfleoedd hefyd i staff ddatblygu eu medrau technoleg ddigidol ymhellach i gefnogi darpariaeth yr ysgol ar gyfer dysgu ar-lein a dysgu cyfunol.

Mae bron pob arweinydd yn cadarnhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi cefnogi eu paratoadau ar gyfer diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r Cwricwlwm i Gymru hefyd.

## Arweinyddiaeth

Mae bron pob arweinydd yn disgrifio'r pwysau y maent wedi eu hwynebu o ran bodloni'r heriau gweithredol dyddiol sylweddol ac esblygol yn ystod y cyfnod hwn o'r pandemig.

Mae llawer o arweinwyr yn nodi bod eu prif heriau yn cysylltu â sicrhau diogelwch disgyblion a staff, gan hefyd ddarparu model dysgu ar y safle, dysgu o bell a dysgu cyfunol sy'n diwallu ystod eang anghenion disgyblion unigol.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae llawer o arweinwyr yn disgrifio'n fanwl sut maent wedi parhau i baratoi eu hysgolion a'u UCDau ar gyfer ADY a diwygio'r cwricwlwm yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â mynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n benodol i'w cyd-destun eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau yn pwysleisio gwerth cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Mynegodd y rhan fwyaf o arweinwyr ar draws y ddau sector eu gwerthfawrogiad am y gefnogaeth gref roeddent wedi'i chael gan gydweithwyr o fewn yr awdurdod lleol, trwy gyngor ac arweiniad ymarferol a chymorth personol gan uwch swyddogion.

# Canfyddiadau manwl a chameos

## Hyrwyddo lles

### Lles disgyblion

**Mae arweinwyr bron ym mhob ysgol arbennig ac UCD yn cadarnhau eu bod wedi parhau i flaenoriaethu lles disgyblion, teuluoedd a staff trwy gydol y cyfnod hwn.**

Mae bron pob un ohonynt yn disgrifio’r modd y maent wedi esblygu ac addasu dulliau ers y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf i gefnogi disgyblion ar y safle ac yn y cartref, yn cynnwys trefniadau i fonitro a chofnodi lles disgyblion a chadw mewn cysylltiad.  At ei gilydd, dywed arweinwyr fod lles cyffredinol llawer o ddisgyblion yn parhau i fod yn dda a bod disgyblion wedi dangos lefelau anrhagweledig o wydnwch yn ystod y pandemig, gan addasu’n rhwydd i’r gwahanol ffyrdd o weithio yn eu hysgolion.

Mae llawer o arweinwyr wedi sôn am y modd y mae modelau presenoldeb rhan-amser a dychwelyd yn raddol i fynychu’r safle yn ystod tymor y gwanwyn wedi cynorthwyo disgyblion i ddatblygu perthnasoedd gweithio cryfach gyda staff.  Hefyd, helpodd y dull hwn y staff i sefydlu dealltwriaeth gyfoethocach o anghenion a nodau disgyblion unigol.  Hefyd, defnyddiodd llawer o ysgolion storïau cymdeithasol, fideos a strategaethau eraill i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus ac wedi eu paratoi’n dda ar gyfer eu hailintegreiddio amser llawn ar ôl gwyliau’r Pasg.



Mae bron pob arweinydd yn disgrifio'r modd y mae eu staff wedi defnyddio amrywiaeth o offer a dulliau i asesu iechyd a lles emosiynol a chymdeithasol disgyblion.  Mae ychydig o arweinwyr yn pwysleisio ei bod yn rhy gynnar i ddweud p'un a oes yna unrhyw effeithiau tymor hir sylweddol wedi bod ar les disgyblion.

Mae lleiafrif o arweinwyr ar draws y ddau sector yn nodi ystod o enghreifftiau lle maent yn credu bod lles disgyblion wedi dioddef o ganlyniad i'r pandemig.  Mewn UCDau ac ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol, mae arweinwyr yn disgrifio'r modd y mae ychydig o ddisgyblion wedi cael trafferth o ganlyniad i ddiffyg strwythur a threfn.  Er enghraifft, maent yn disgrifio sut roedd ychydig o ddisgyblion hŷn yn ei gweld yn heriol cadw at gyfyngiadau'r cyfnod clo yn y gymuned.  Maent yn nodi achosion cynyddol o gamddefnyddio sylweddau, hunan-niweidio, anhwylderau bwyta a tharfu ar batrymau cysgu.  Mae arweinwyr yn esbonio iddi fod yn anos ailymgysylltu â'r disgyblion hyn ers dychwelyd i'r ysgol.  Dywed ychydig o arweinwyr fod cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau amddiffyn plant a mwy o achosion o ddisgyblion yn dechrau derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae ychydig o arweinwyr yn nodi bod canlyniadau arolygon lles yn amlygu cynnydd clir yng ngorbryder disgyblion a dirywiad yn agweddau disgyblion at eu hyder a'u hunan-barch eu hunain.  Mae arweinwyr yn disgrifio ystod o ymyriadau a dulliau a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r materion hyn.  Er enghraifft, mewn un darparwr, nododd yr UCD ymyriadau lles perthnasol un i un ac mewn grwpiau bach i gefnogi anghenion disgyblion, yn cynnwys gweithdai rheoli dicter a gorbryder.

Dywed ychydig o arweinwyr UCDau fod disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cael trafferth ailsefydlu arferion dyddiol a'u bod wedi llithro'n ôl mewn medrau fel rhannu a bod yn rhan o grŵp.  Mae'r arweinwyr hyn yn siarad am staff yn 'dechrau o'r dechrau' gyda llawer o ddisgyblion i sefydlu arferion a ffiniau cyfarwydd.

Yng **Nghanolfan Addysg Tai**, cefnogodd staff y drefn i drosglwyddo disgyblion yn ôl i'r UCD trwy gynllun masnachol a oedd eisoes yn cael ei ddefnyddio.  Nod y cynllun yw atal a mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad dysgwyr iau a hyrwyddo eu cynnydd cymdeithasol, emosiynol, ac academaidd.  Cynlluniodd staff ddulliau pwrpasol i ddiwallu anghenion y disgyblion hynny sydd â'r anawsterau ymddygiadol mwyaf.  Roedd gweithgareddau'n cynnwys cyfleoedd i archwilio emosiynau, y mae staff yn mynd ar eu trywydd fel rhan o alwadau lles bugeiliol wythnosol yr UCD i ddisgyblion a'u teuluoedd.

Mae llawer o arweinwyr yn disgrifio'r modd y maent yn parhau i gynnal gweithdrefnau rheoli heintiau i amddiffyn staff a lles disgyblion.  Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol, mae arweinwyr mewn ysgolion arbennig yn parhau i fynegi pryderon am effaith y mesurau hyn ar gyfleoedd arferol ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, yn ogystal â chyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau dathliadol.

### Cefnogi lles rhieni a gofalwyr

Dywed y rhan fwyaf o arweinwyr ar draws y ddau sector fod perthnasoedd â theuluoedd wedi parhau i gryfhau trwy gydol cyfnod y pandemig.  Maent yn disgrifio'r modd y mae eu trefniadau ar gyfer cadw mewn cysylltiad a chefnogi eu disgyblion a'u teuluoedd wedi esblygu a chryfhau ers y cyfnod clo cyntaf.

Yn **Ysgol Arbennig Maes-y-Coed**, mae'r swyddog cyswllt â theuluoedd a benodwyd yn ddiweddar wedi gweithio gydag asiantaethau ac elusennau eraill fel Achub y Plant i gefnogi teuluoedd yn ymarferol trwy gydol y pandemig. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys darparu pecynnau bwyd a hylendid ar gyfer teuluoedd, sydd wedi bod yn ddiolchgar i'w cael. I gydnabod yr agwedd hon ar waith yr ysgol, mae'r ysgol wedi cael achrediad ffurfiol am ei gwaith gyda theuluoedd gan asiantaeth allanol. Mae **Ysgol Arbennig Greenhill** wedi cynnal ei bore coffi rhithwir bob pythefnos ar gyfer rhieni a gofalwyr. Caiff y fforwm hwn ei werthfawrogi gan y rhieni, ac mae'n caniatáu cyfleoedd i ddal i fyny neu drafod pryderon gyda'i gilydd neu gyda staff.

Mae llawer o arweinwyr yn disgrifio'r modd y mae staff yn parhau i wneud mwy o ddefnydd o lawer o gyfryngau cymdeithasol a phlatfformau cyfathrebu i gadw mewn cysylltiad â disgyblion a'u teuluoedd. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn dweud sut mae hyder a hyfedredd staff, disgyblion a rhieni mewn defnyddio'r dulliau hyn wedi datblygu ers y cyfnod clo cyntaf.

At ei gilydd, dywed arweinwyr fod llawer o rieni a gofalwyr wedi dangos mwy o wydnwch ac yn gallu cynorthwyo staff ysgol yn well gyda dysgu o bell a darpariaeth ar gyfer lles nag yr oeddent yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Roedd disgyblion a theuluoedd yn fwy hyderus â'r trefniadau hyn a oedd yn hwyluso gwaith y staff. Mae arweinwyr ar draws y ddau leoliad yn dweud sut mae'r perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng staff, disgyblion a'u teuluoedd wedi bod yn allweddol o ran hyrwyddo lles emosiynol disgyblion a theuluoedd trwy gydol cyfnod pan oedd teuluoedd dan straen sylweddol.

**Presenoldeb**

Ar ddechrau tymor yr haf, mae arweinwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion arbennig yn cadarnhau bod presenoldeb yn dda, ac wedi gwella dros gyfnod. Mae llawer o arweinwyr yn credu bod cynnal trefniadau iechyd a diogelwch trylwyr a rhannu asesiadau risg ac arferion gyda disgyblion a theuluoedd wedi rhoi tawelwch meddwl i randdeiliaid ac wedi gwella presenoldeb.

Yn yr achosion prin lle nad yw disgyblion unigol wedi dychwelyd i ysgolion eto o ganlyniad i bryderon am iechyd a gorbryderon isorweddol disgyblion neu'u teuluoedd, mae arweinwyr o ysgolion arbennig a gynhelir yn cadarnhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r rhesymau am hyn. Mae arweinwyr yn cadarnhau bod y disgyblion hyn yn parhau i gael eu cefnogi gan ddarpariaeth dysgu o bell a chyswllt a darpariaeth reolaidd o ran lles.

Mae arweinwyr UCDau yn cadarnhau bod patrymau presenoldeb disgyblion yn amrywio. Mae tua hanner yr UCDau yn nodi bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi dychwelyd ac yn ailymgysylltu'n dda â strwythurau, arferion a dysgu. Yn yr UCDau hyn, dywed arweinwyr fod disgyblion yn falch o fod yn ôl ac yn ymgartrefu'n dda, gan groesawu'r cyfle i gymdeithasu â'u ffrindiau.

Fodd bynnag, dywed tua hanner yr UCDau fod presenoldeb lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn amrywio, naill ai oherwydd eu bod yn cael trafferth dychwelyd i'r drefn reolaidd o fod yn barod ar gyfer yr ysgol neu oherwydd eu bod wedi cael cynnig swydd. Dywed ychydig o arweinwyr nad yw ychydig o ddisgyblion Blwyddyn

11 wedi dychwelyd, a bod staff yn ymweld â nhw gartref i ymgysylltu â nhw i gwblhau eu hasesiadau.

**Hyrwyddo lles staff**

Mae bron pob arweinydd yn disgrifio'r pwysau sydd wedi wynebu staff ers dechrau'r pandemig, ac yn canmol gwaith caled, gwydnwch, ac ymroddiad personol parhaus eu staff yn ystod y cyfnod hwn. Mae llawer o arweinwyr yn parhau i ddweud bod aelodau staff wedi ymlâdd yn gorfforol ac yn emosiynol o ganlyniad i'r addasiadau parhaus y bu'n rhaid i staff eu gwneud i fodloni gofynion hunanynysu a chynllunio ar gyfer dysgu cydamserol ar y safle a dysgu o bell.

Mae bron pob arweinydd yn disgrifio strategaethau ymarferol y maent wedi eu rhoi ar waith i leddfu gorbryderon staff. Mae'r dulliau cefnogol hyn yn cynnwys gwiriadau lles anffurfiol gyda staff, yn ogystal â chyfarfodydd staff rheolaidd ar-lein i rannu gwybodaeth ac arfer dda a dod o hyd i atebion i heriau presennol. Er mwyn ymateb i bryderon staff am amrywiolion newydd COVID-19, mae ychydig o ysgolion wedi symud cyfarfodydd staff lle cedwir pellter cymdeithasol o ofodau ysgol mawr i blatfformau rhithwir. Mewn ychydig o ysgolion, mae staff yn teithio gartref ar ddiwrnodau cyfarfodydd staff ac yn mynychu'r cyfarfodydd hyn o'u cartref eu hunain.

Mae llawer o arweinwyr yn disgrifio'r modd y mae staff yn parhau i gael eu cynorthwyo gan swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl, grwpiau cyfryngau cymdeithasol caeedig i staff a chylchlythyrau wythnosol i'w cymell a'u hysbysu'n rheolaidd. Mae gan un ysgol arbennig seicotherapydd a therapydd teulu cymwys yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth. Mae ei mewnbwn therapiwtig wedi bod yn bwysig o ran cefnogi staff a disgyblion fel ei gilydd. Mae'n darparu goruchwyliaeth ar gyfer staff yn yr ysgol yn anffurfiol. Mewn lleoliadau eraill, mae arweinwyr wedi cyflwyno rhaglenni ymwybyddiaeth ofalgar i gefnogi lles staff.

Mae llawer o arweinwyr ar draws y ddau leoliad yn nodi pwysigrwydd cyfathrebu clir ac ymglymiad staff mewn rhoi mesurau ar waith i gefnogi diogelwch a lles staff.

Mae arweinwyr yn **Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod** yn pwysleisio mai'r dull allweddol o reoli lles staff fu'r dull ymgynghorol a fabwysiadwyd gan y pennaeth wrth weithio gyda'r cymdeithasau proffesiynol. Bob wythnos, mae cynrychiolwyr o'r cymdeithasau proffesiynol yn cyfarfod â chadeirydd y llywodraethwyr i drafod mesurau iechyd a diogelwch perthnasol a rhoi adborth ar eu hymgynghori ag aelodau. Mae'r dull ymgynghorol hwn wedi rhoi rôl arweiniol i undebau yn y broses asesu risg trwy gydol y pandemig, ac wedi helpu'r ysgol i sicrhau bod arweiniad ac asesiadau risg yn diwallu anghenion staff ac yn ymgorffori eu pryderon.

Mae llawer o arweinwyr ar draws y ddau sector yn pwysleisio sut gwnaeth hyder staff wella wedi iddynt allu cael profion llif unffordd rheolaidd a chael dau ddos o'r brechiad. Fodd bynnag, mae ychydig o arweinwyr ysgolion arbennig yn disgrifio'r anawsterau y maent wedi eu cael yn sicrhau bod staff yn cael y brechiad yn brydlon gan fod y trefniadau ar gyfer brechu staff yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol.

## Dulliau addysgu yn ystod tymor y gwanwyn

**Dywed arweinwyr fod amrywiad sylweddol ledled Cymru yng nghyfran y disgyblion y nodwyd eu bod yn gymwys i fynychu'r ysgol neu'r UCD ar gyfer addysgu ar y safle yn ystod tymor y gwanwyn.**

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn disgrifio sut parhaodd staff i flaenoriaethu'r disgyblion mwyaf bregus tra'n sicrhau bod ystod ehangach o ddisgyblion yn gallu cael eu haddysgu ar y safle yn amlach nag yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf.  Er enghraifft, mynychodd grwpiau o ddisgyblion yn rhan-amser bob wythnos neu bob yn ail wythnos. Mewn un UCD, dyrannwyd model dysgu cyfunol o ddarpariaeth ar y safle am ddeuddydd neu dridiau'r wythnos i'r holl ddisgyblion, gan ddarparu dysgu ar-lein a dysgu o bell am weddill yr wythnos.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn esbonio sut roedd addysgu yn ystod tymor y gwanwyn yn cynnwys ystod o ddulliau i adlewyrchu'r model presenoldeb, dealltwriaeth y lleoliad o anghenion disgyblion, a sut orau y gallai rhieni unigol gefnogi dysgu eu plentyn gartref.



At ei gilydd, dywed bron pob arweinydd eu bod wedi cryfhau trefniadau ar gyfer dysgu cyfunol a dysgu o bell dros y flwyddyn ddiwethaf trwy ddarparu cyfuniad o addysgu wyneb yn wyneb, sesiynau ar-lein a sesiynau byw, a danfon adnoddau i'r cartref.

Dywed llawer o arweinwyr fod y sesiynau dal i fyny rheolaidd a gawsant gyda rhieni wedi helpu staff i deilwra'r model dysgu gartref yn unol ag anghenion y plentyn a'r teulu. Wrth i berthnasoedd â rhieni ddyfnhau, mae ysgolion wedi addasu eu dulliau cystal ag y gallant i ddiwallu anghenion disgyblion a'u teuluoedd. Dywed y rhan fwyaf o benaethiaid fod trefniadau cadarn ar waith i gynnal dysgu gartref pe bai angen i ddisgyblion hunanynysu neu mewn unrhyw gyfnod clo yn y dyfodol.

**Dulliau addysgu ers ailagor ysgolion ac UCDau yn llawn**

Mae bron pob arweinydd yn cadarnhau bod eu staff wedi cynllunio'n ofalus ar gyfer disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl ailagor yr ysgol neu'r UCD yn llawn ar ôl y Pasg. Mae hyn yn cynnwys trefniadau i gefnogi mesurau'r lleoliad ar gyfer rheoli heintiau, fel dychwelyd i'r ysgol yn raddol, modelau presenoldeb rhan-amser ac amseroedd dechrau a gorffen hwyrach. Maent yn disgrifio'r modd y rhoddwyd ystyriaeth i sefydlu arferion ar gyfer disgyblion sy'n lliniaru risg haint. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau i allu symud o gwmpas yr ysgol yn ddiogel, gwisgo gorchuddion wyneb, cyfyngiadau ar gymysgu cymdeithasol amser egwyl ac amser cinio a chyfyngiadau ar weithgareddau cymunol a dathliadau, fel gwasanaethau. Mae llawer o arweinwyr yn nodi bod staff yn parhau i fod wedi eu cyfyngu i'w hystafelloedd dosbarth ar y cyfan, er bod mwy o sôn am ddefnydd cynyddol o ofod awyr agored, yn enwedig i gynyddu symudedd disgyblion, at ddibenion ymarfer corff cyffredinol, ac ar gyfer gwersi, os yw'r tywydd yn caniatáu.

Mewn UCDau lle roedd disgyblion yn arfer symud o gwmpas i ardaloedd addysgu yn benodol i bynciau, dywed sawl arweinydd UCD y bu'n rhaid iddynt addasu'r trefniadau hyn i adlewyrchu'r cyfyngiadau presennol, a gweithredu swigod. Er enghraifft, mewn un UCD, mae staff addysgu yn mynd i'r disgyblion. Mewn achosion eraill, mae defnyddio technoleg ddigidol yn galluogi i addysgu wedi'i seilio ar bwnc barhau heb fod staff neu ddisgyblion yn torri swigod. Yn y tymor byr, dywed arweinwyr fod disgyblion yn addasu i'r newidiadau hyn yn dda. Yn y tymor hwy, fodd bynnag, mae arweinwyr yn cadarnhau eu bod yn awyddus i ailsefydlu eu model gwreiddiol.

Mae bron pob arweinydd yn cadarnhau bod y prif ffocws ar gyfer cynllunio athrawon ar les disgyblion a sicrhau bod disgyblion yn parhau i ymgymryd â gweithgareddau diddorol ac ystyrlon. Er enghraifft, mewn un UCD, caiff disgyblion sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth gyfleoedd ychwanegol i gymryd rhan mewn sesiynau lles un i un gan y tîm staff lles ar y safle mewn ardaloedd ar wahân, sy'n groesawgar a diogel. Dywed sawl arweinydd eu bod wedi ychwanegu mwy o addysg bersonol a chymdeithasol ar draws yr amserlen wythnosol, a mynediad cynyddol at weithgareddau ymarferol yn yr awyr agored.

Yn **UCD Tŷ Gwyn**, mae trac rhedeg a chwrt pêl-fasged newydd wedi cael eu gosod. Mae seddau ychwanegol ar gael yn y brif ardal y tu allan hefyd. Mae ardal â seddau newydd yn yr iard fewnol y gall disgyblion ddewis ei defnyddio os oes yn well ganddynt gael amser tawel. Yn ychwanegol, mae blychau planhigion a blychau adar wedi eu dylunio, eu creu ac yn cael eu cynnal gan ddisgyblion fel rhan o'u gwersi celf a dylunio a thechnoleg ym mynedfa'r UCD. Yng **Nghanolfan Ddysgu Sir Benfro**, mae staff yn darparu ystod o weithgareddau lles ac adeiladu tîm, a ddewiswyd yn sgil ymgynghori â disgyblion. Yn y sector cynradd, mae disgyblion wedi cael diwrnod trecio lamas. Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau byw yn y gwyllt ac yn y dŵr, fel syrffio. Ar draws y gweithgareddau hyn, dywed staff fod disgyblion yn bwyllog ac wedi ymlacio, a'u bod yn cryfhau eu cyfathrebu a'u rhyngweithio cymdeithasol gyda staff a gyda'i gilydd.

Mewn ychydig iawn o UCDau, dywed arweinwyr â darpariaeth gynradd mai ychydig iawn o ddisgyblion sy'n arddangos ymddygiadau amhriodol yn enwedig ynglŷn â chymryd eu tro, rhyngweithio cymdeithasol a goddef eu cyfoedion. Yn yr achosion hyn, mae staff yn addasu gweithgareddau addysgu sy'n darparu mynediad ychwanegol at ddysgu awyr agored, ac yn meithrin medrau cymdeithasol disgyblion o'r newydd trwy ddysgu wedi'i seilio ar chwarae.

Yng **Nghanolfan Addysg Conwy**, mae therapydd chwarae wedi cael ei recriwtio i gyflwyno hyfforddiant proffesiynol i helpu staff i ddatblygu rôl chwarae yn y cwricwlwm. Mae'r therapydd yn mynychu'r UCD bob wythnos i weithio gyda disgyblion cyfnod allweddol 2. Disgrifiodd y pennaeth bwysigrwydd a llwyddiant y gweithgareddau chwarae strwythuredig hyn a sefydlwyd yn ddiweddar. Disgrifiodd y ffocws ar ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion fel cymryd tro a rhannu adnoddau. O ganlyniad, mae'r pennaeth yn ystyried datblygu'r cwricwlwm chwarae i mewn i gyfnod allweddol 3.

Bron ym mhob UCD sydd â disgyblion cyfnod allweddol 4, dywed arweinwyr fod ffocws parhaus ar gwblhau asesiadau a gwaith cwrs yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, dywed arweinwyr fod y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 11 wedi dychwelyd gyda lefelau ymgysylltu cadarnhaol. Fodd bynnag, maent yn nodi'r pwysau ychwanegol sy'n wynebu'r disgyblion hyn wrth gwblhau eu cymwysterau a chynllunio ar gyfer eu camau nesaf pan fyddant yn gadael yr UCD.

Mewn ychydig iawn o UCDau, dywed arweinwyr fod cyfyngiadau'r adeilad yn cyfyngu ar gyfleoedd i weithio mewn parau neu grwpiau bach, o ystyried y mesurau presennol i reoli heintiau. Mewn ychydig iawn o UCDau, mae arweinwyr yn nodi bod prinder staff yn effeithio'n negyddol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Yn yr UCDau hyn, mae arweinwyr yn rheoli'r materion trwy ddefnyddio staff cymorth a chynorthwywyr addysgu lefel uwch i gryfhau addysgu ar draws yr UCD, ble bynnag y bo modd.

**Ymgysylltu â dysgu**

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion arbennig a llawer o arweinwyr UCDau yn cadarnhau bod ymgysylltiad disgyblion â dysgu wedi parhau'n gryf yn ystod tymor y gwanwyn. Yn gyffredinol, roedd hyn oherwydd bod arweinwyr wedi

blaenoriaethu dychwelyd disgyblion hŷn i'r UCD neu wedi gweithredu amserlenni rhan-amser ar gyfer disgyblion o bob oedran i gynnal cyswllt mwy rheolaidd ar y safle. Yn yr un modd, lle roedd yn anodd ymgysylltu â disgyblion Blwyddyn 11, mae staff UCD wedi cefnogi'r disgyblion hyn trwy ystod o ddulliau, yn cynnwys galwadau ffôn rheolaidd ac ymweliadau rheolaidd ar stepen y drws. Er enghraifft, mewn un UCD, mae staff wedi ymweld â disgyblion yn eu gerddi i gwblhau asesiadau.

Fodd bynnag, dywed ychydig o arweinwyr UCDau ac ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl nad oedd disgyblion hŷn bob amser yn ymgysylltu â dysgu cyfunol neu ddysgu o bell yn gyson dda. Dywedant fod dirywiad mewn ymddygiad wrth i ddisgyblion golli eu harferion personol, yn cynnwys aros i fyny'n hwyr a gwrthod gwneud ymarfer corff. Dangosodd ychydig o ddisgyblion ymddygiadau negyddol oherwydd eu bod yn dirnad bod y sefyllfa'n annheg, lle mae'n rhaid iddyn nhw fynychu'r ysgol neu'r UCD, ond nid yw eu cyfoedion yn mynychu darpariaeth brif ffrwd.

Ers dychwelyd yn llawn i ddysgu ar y safle ar ôl y Pasg, dywed y rhan fwyaf o arweinwyr fod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi ymateb yn frwdfrydig i ddychwelyd at arferion dyddiol a'r cyfle i ailsefydlu grwpiau ffrindiau.

**Monitro cynnydd disgyblion**

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cadarnhau eu bod wedi parhau i fonitro cynnydd disgyblion ers i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol yn llawn, ac yn nodi unrhyw fylchau neu ddysgu a gollwyd. Dywed arweinwyr eu bod wedi mabwysiadu ystod o ddulliau i ennyn diddordeb disgyblion a lleihau gorbryder i'r eithaf yn y broses hon. Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau personoledig Llywodraeth Cymru, asesiadau masnachol ac asesiadau wedi'u cynllunio gan ysgolion, ac arsylwi uniongyrchol.

Mewn mwyafrif o UCDau, mae arweinwyr yn cadarnhau bod staff yn defnyddio'r wybodaeth o systemau olrhain ymgysylltu a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod dysgu gartref i ategu deilliannau mwy diweddar i asesu disgyblion ar y safle, ac addasu rhaglenni dysgu disgyblion, lle bo'n briodol.

Yn y **Bridge Achievement Centre**, dywed uwch arweinwyr fod staff wedi olrhain ymgysylltiad disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a lles yng nghyfnod allweddol 3 ac mewn rhaglenni cymwysterau yng nghyfnod allweddol 4 trwy gydol cyfnodau dysgu o bell a dysgu cyfunol. Maent yn rhannu'r wybodaeth a ddarperir gyda disgyblion a rhieni fel rhan o'r broses adrodd bob tymor. Dywed uwch arweinwyr fod cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r cynnydd neu i fynd i'r afael ag unrhyw lithro'n ôl mewn dysgu, lle bo'n briodol.

Mewn un ysgol arbennig, mae staff wedi nodi bod disgyblion â medrau llythrennedd gwael wedi ei gweld yn haws defnyddio offeryn lleferydd i destun i fynegi eu hunain yn ysgrifenedig a dangos eu dealltwriaeth. O ganlyniad i'r adborth y maent wedi ei gael wrth ddefnyddio'r offeryn hwn, maent yn ymgysylltu â gwersi gyda mwy o hunan-barch a hyder.

Er gwaethaf yr enghreifftiau hyn, dywed arweinwyr fod cynnydd llawer o ddisgyblion mewn meysydd fel eu medrau cyfathrebu, rhifedd, annibyniaeth a'u medrau

cymdeithasol wedi dioddef dros gyfnod y pandemig.  Mae llawer o arweinwyr yn cadarnhau mai megis dechrau ar y broses asesu y maent, a'i bod yn rhy gynnar asesu'n gywir effaith lawn y pandemig ar ddysgu disgyblion.

**Profiadau dysgu**

Mae bron pob arweinydd yn cydnabod bod angen defnyddio ymagwedd hyblyg at y cwricwlwm dros y cyfnod hwn i alluogi addysgu i adlewyrchu anghenion unigol disgyblion o ganlyniad i'w profiadau yn ystod y pandemig.  Mae arweinwyr yn cyfeirio at effeithiau tymor hir posibl y gallai'r pandemig eu cael ar anghenion emosiynol, ymddygiadol a dysgu disgyblion, yn ogystal ag effaith uniongyrchol y cyfyngiadau ar fodel arferol y cwricwlwm.

Yn ystod y galwadau ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod rhan olaf tymor y gwanwyn, parhaodd arweinwyr i amlygu'r heriau sy'n wynebu ysgolion ac UCDau oherwydd bod y cwricwlwm yn gyfyngedig, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ddatblygu medrau disgyblion.  Roedd hyn yn arbennig o wir am y profiadau dysgu hynny sy'n digwydd i ffwrdd o safle'r ysgol yn gyffredinol.  Mewn galwadau ac ymweliadau ar ôl y Pasg, mae arweinwyr yn cadarnhau bod profiadau fel dysgu galwedigaethol a chyfle i ddefnyddio cyfleusterau hamdden a chyfleusterau cymunedol eraill yn dechrau ailgychwyn.  Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith a phresenoldeb ar gyrsiau mewn colegau addysg bellach yn parhau i fod yn gyfyngedig.

Mae llawer o arweinwyr ar draws y ddau sector yn parhau i sôn am y modd y maent yn gwneud defnydd cynyddol o'r amgylchedd allanol i ddefnyddio eu tir ar gyfer ymarfer corff a gweithgareddau dysgu awyr agored eraill.

Yng **Nghanolfan Addysg Tai**, mae'r pennaeth yn disgrifio'r modd y mae'r UCD yn datblygu ei hamgylchedd awyr agored i ddarparu cyfleoedd gwell i ddisgyblion ymgymryd â dysgu yn yr awyr agored.  Er enghraifft, mae disgyblion yn ailddylunio'r ardd i osod y tai draenogod y maent wedi eu hadeiladu mewn cynefin addas; mae 'ffau' wedi cael ei hadeiladu ar y tir ble gall disgyblion adrodd storïau a darllen; ac mae coed yn cael eu plannu.

Yn **UCD Sir Ddinbych,** mae'r pennaeth yn disgrifio mai un o'r heriau mwyaf oedd cynnig dewisiadau amgen i ddisgyblion yn lle'r gweithgareddau ymarferol sy'n cael eu cynnal mewn canolfan awyr agored sydd wedi bod ar gau.  Er mwyn ymateb i adborth o lais disgyblion, prynodd yr UCD sawl bwrdd tennis bwrdd ar gyfer yr awyr agored i sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff rheolaidd, yn ogystal â rhyngweithio cymdeithasol gyda'u cyfoedion.

Yn **Ysgol Arbennig Maes Derw**, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn mwynhau'r ardaloedd cynyddol i ddysgu yn yr awyr agored ar gyfer ystod ehangach o weithgareddau ymarferol. Mae disgyblion wedi bod yn darganfod eu ffordd o gwmpas llwybr gyda mwgwd dros eu llygaid, a chario cwpan o ddŵr, gan ddefnyddio rhaff yn ganllaw. Mae cyfres o dasgau ar y llwybr ar hyd y ffordd, fel symud trwy dwnnel, ymlwybro rhwng rhwystrau a dringo dros foncyffion bach. Caiff disgyblion eu cynorthwyo gan staff i ddatblygu eu medrau gwrando, holi a dyfalbarhau i gwblhau'r cwrs cystal ag y gallant.

Mae arweinwyr ar draws y ddau sector yn disgrifio'r modd y maent wedi addasu darpariaeth ar y safle i ymateb i'r tarfu parhaus ar fynediad i ddisgyblion at ddysgu oddi ar y safle. Mae hyn wedi effeithio'n benodol ar ddisgyblion cyfnod allweddol 4 o ran cael mynediad at ddarparwyr oddi ar y safle, fel sefydliadau addysg bellach a darparwyr profiad gwaith fel rhan o'u llwybrau galwedigaethol.

O ganlyniad i golli profiadau dysgu pwysig yn y coleg addysg bellach lleol ac mewn darparwyr lleoliadau gwaith, gweithiodd **Ysgol Pendalar** gyda'i phrifysgol leol i ddatblygu'r prosiect 'elfennau gwyllt'. Mae hyn yn hyrwyddo garddio yn yr awyr agored. Yn ychwanegol, mae wedi gweithio gyda'i thîm anableddau oedolion lleol i greu prosiect newydd ar fyw yn iach. Yn **UCD Portffolio Darpariaeth Amgen The Bridge,** dywed y pennaeth fod y cyfyngiadau sy'n atal disgyblion rhag cael mynediad at Ysgolion Coedwig oddi ar y safle lle byddent fel arfer yn ennill cymwysterau Agored Cymru, yn destun pryder. O ganlyniad, mae staff a disgyblion wedi addasu'r ddarpariaeth ar y safle gan ddefnyddio ardal eu rhandir, i allu cyflawni gofynion y cwrs.

Yng **Ngwasanaethau Cyfeirio Disgyblion Wrecsam**, mae'r pennaeth yn sôn am y modd y mae'r gweithgareddau galwedigaethol wedi cael eu hehangu ar y safle. Mae disgyblion a staff wedi tywarchu gofod agored yn yr UCD ac wedi ei adnewyddu trwy osod blychau planhigion a adeiladwyd gan y disgyblion. Yn yr un modd, mae'r UCD wedi bod yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gwblhau cymwysterau trwy ddarparwr ar-lein, yn cynnwys mewn iechyd a diogelwch, hylendid bwyd a diogelwch rhag tân.

Mewn ychydig o UCDau, dywed arweinwyr eu bod yn annog darparwyr allanol i gyflwyno gweithgareddau'n ddiogel ar y safle i gynyddu cyfle disgyblion i wneud ymarfer corff. Mewn un UCD, esboniodd y pennaeth y modd y mae hyfforddwyr o academi bêl-droed yn mynychu safle'r UCD i ddarparu hyfforddiant pêl-droed ar gyfer y disgyblion.

Dywed ychydig o arweinwyr UCD fod mynediad disgyblion at leoliadau mewn colegau addysg bellach wedi parhau o bell trwy gydol y pandemig trwy blatfformau dysgu ar-lein. Mae hyn wedi bod yn her i lawer o ddisgyblion a ddewisodd gyrsiau coleg ar sail y cyfle i ymgymryd â phrofiadau galwedigaethol ymarferol. At ei gilydd, cyfyngedig fu'r mynediad i fynychu coleg ar gyfer elfennau ymarferol y gwaith cwrs, a dywed llawer o arweinwyr fod ailagor lleoliadau coleg ar y safle yn anghyson ar draws awdurdodau lleol.

Yn y mwyafrif o ysgolion ac UCDau, mae arweinwyr yn parhau i fynegi pryderon am effaith y cyfle cyfyngedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle ar ddatblygu annibyniaeth a medrau cymdeithasol disgyblion. Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio, mae arweinwyr yn awyddus i ailsefydlu'r agwedd bwysig hon ar gyflwyno'r cwricwlwm. Yn y cyfamser, maent yn disgrifio'r modd y mae staff wedi parhau i addasu'r cwricwlwm i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn.

Mae **Ysgol Rhydygors** wedi gweithredu cwricwlwm wedi'i seilio ar chwarae ar gyfer ei disgyblion iau. Mae staff yn darparu strwythur ac yn arwain disgyblion i ymgymryd â'u diddordebau. Mae disgyblion yn dysgu ailgysylltu â'u cyfoedion a rheoli eu hemosiynau. Mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol fel garddio a chynnal y tŷ gwydr. Yn ychwanegol, mae disgyblion hŷn yn defnyddio ystod o fedrau yn cynllunio ystafell gyffredin newydd iddynt ei defnyddio.

**Cymwysterau**

Dywed y rhan fwyaf o arweinwyr fod disgyblion yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gwblhau eu hasesiadau a'u gwaith cwrs ar gyfer ystod o ddeilliannau achrededig, lle bo'n berthnasol, yn cynnwys cymwysterau TGAU a BTEC. Maent yn cadarnhau bod systemau priodol ar waith ynglŷn â dyfarnu graddau a bennir gan ganolfannau, yn cynnwys cysylltu ag ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd eraill. Dywed arweinwyr fod staff wedi bod yn hyblyg a chalonogol wrth gefnogi disgyblion i reoli'r baich gwaith a'r gyfundrefn asesu fel rhan o'r broses hon. Fodd bynnag, mae sawl arweinydd yn nodi heriau proses y graddau a bennir gan ganolfannau, a'r pwysau ychwanegol mae hyn wedi'i roi ar staff.

Mewn ychydig o UCDau, dywed arweinwyr y bu'n rhaid iddynt ddiwygio'r opsiynau achredu sydd ar gael i ddisgyblion oherwydd y diffyg mynediad at ddarparwyr allanol. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr yn disgrifio'r modd y mae cymwysterau bellach yn cael eu cyflwyno ar y safle gan leihau i'r eithaf y tarfu ar adeiladau, neu'r addasiadau a wnaed iddynt. Er enghraifft, mewn un UCD, cyflwynwyd ffotograffiaeth ac astudiaethau'r cyfryngau ochr yn ochr â Bagloriaeth Cymru i ddarparu llwybrau cymwysterau hyfyw ar gyfer disgyblion.

**Cyrchfannau ar gyfer disgyblion hŷn a phontio**

Mae llawer o arweinwyr yn parhau i fynegi pryderon am y tarfu ar drefniadau i gefnogi pontio disgyblion hŷn yn esmwyth ac effeithiol i addysg bellach a chyrchfannau eraill. Dywed penaethiaid eu bod yn parhau i weithio gyda darparwyr i sicrhau cyrchfannau priodol ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, mae disgyblion wedi methu'r profiadau hanfodol y byddai disgyblion wedi eu cael fel arfer i ymgyfarwyddo â theithio, pobl, cyrsiau, ac adeiladau. Mae arweinwyr yn pryderu nad oes darlun cenedlaethol clir ar y cyfan ar b'un a yw pontio ar gyfer disgyblion hŷn i addysg bellach a darparwyr eraill ar gyfer haf 2020 wedi bod yn llwyddiannus, a ph'un a yw'r disgyblion hynny yn parhau i ymgymryd yn briodol â nhw.

Mae sawl arweinydd yn nodi bod yr UCD wedi parhau i fod yr unig ddarparwr addysg ar gyfer disgyblion sydd â chofrestriad deuol trwy gydol y pandemig. Yn ychwanegol, mae'r pandemig wedi cyfyngu ar gyfleoedd i ailintegreiddio disgyblion yn ôl i ysgolion prif ffrwd. Dywed arweinwyr fod pryderon penodol o ran disgyblion

hŷn yng nghyfnod allweddol 3 y mae eu cyfleoedd i ailintegreiddio i ysgol brif ffrwd amser llawn yn lleihau heb gael eu hamlygu'n rheolaidd i'r profiadau hyn.

**Cwricwlwm i Gymru**

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cadarnhau bod athroniaeth, egwyddorion a phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn gweddu'n dda i'r ymagwedd at y cwricwlwm a ddefnyddir gan ysgolion ac UCDau wrth ddiwallu anghenion eu disgyblion. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn cadarnhau bod cynnydd wrth ei roi ar waith ar gamau datblygu amrywiol.

Mae llawer o arweinwyr yn parhau i gyfeirio'n glir at y cysyniad o gynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn fel elfen hanfodol o fodel eu cwricwlwm. Maent yn nodi'r gydberthynas rhwng y dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac egwyddorion y cwricwlwm, ac yn cyfeirio at y dylanwad mae hyn yn ei gael ar gynllunio eu cwricwlwm. O ganlyniad, mae lleiafrif o arweinwyr yn disgrifio'r modd y maent yn adolygu'r cwricwlwm i sicrhau bod hyn yn hwyluso dilyniant medrau disgyblion ar gyfer bywyd ar ôl yr ysgol yn gliriach.

Mewn ychydig o ysgolion ac UCDau, mae arweinwyr yn cadarnhau bod y lleoliad eisoes wedi alinio ei gwricwlwm â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh), mae staff wedi eu trefnu o fewn timau MDPh, ac yn dechrau olrhain cynnydd yn unol â'r camau dilyniant.

Yng **Nghanolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin**, esboniodd y pennaeth fod y UCD wedi bod yn gweithio ers cryn amser i ymgorffori agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru ar draws ei chynlluniau gwaith a'i haddysgu. Mae wedi trefnu ei chwricwlwm a'i chyfrifoldebau arwain i alinio â Meysydd Dysgu a Phrofiad ac ymgorffori'r pedwar diben craidd ar draws cynlluniau athrawon. Mae'r pennaeth yn croesawu'r cyfleoedd ar gyfer cynllunio thematig, gan fod y rhain yn cynrychioli dilyniant naturiol o'r dull y mae'r UCD wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae ychydig o benaethiaid wedi nodi bod eu gallu i gyflwyno cwricwlwm priodol yn debygol o gael ei beryglu os eir ymlaen â chynlluniau i gynyddu nifer y disgyblion yn eu hysgolion. Dywed arweinwyr yn yr ysgolion hyn fod gofodau gwerthfawr a ddefnyddir ar gyfer addysgu ar draws y cwricwlwm, yn ogystal â llyfrgell yr ysgol, y gampfa ac ardaloedd pwysig eraill, yn debygol o gael eu haberthu i wneud lle ar gyfer disgyblion newydd.

Dywed ychydig o benaethiaid na roddwyd blaenoriaeth i gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn ystod y cyfnod hwn. Er gwaethaf hyn, maent yn hyderus na fydd hyn yn effeithio ar eu cynlluniau cyffredinol a'u bod mewn sefyllfa dda o hyd i roi'r diwygiadau ar waith.

## Prosesau statudol

**Mae arweinwyr ar draws y ddau sector yn cadarnhau bod prosesau statudol ac adolygiadau blynyddol yn parhau i gael eu cynnal o fewn y cyfnodau gofynnol.**

Mae adolygiadau blynyddol yn parhau i gael eu cynnal ar-lein yn bennaf. Fodd bynnag, mae ychydig o arweinwyr yn mynegi pryderon nad yw adolygiadau blynyddol a gynhelir o bell yn cefnogi'r un dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a manteision â chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Maent yn nodi bod disgyblion yn ei chael yn anodd ymgysylltu ar-lein yn yr un ffordd ag y byddent mewn adolygiad wyneb yn wyneb.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion arbennig yn cadarnhau bod cydweithio amlddisgyblaethol rheolaidd rhwng cynrychiolwyr o'r ysgol, y gwasanaethau lles addysg, y gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd, yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer anghenion canfyddedig disgyblion. At ei gilydd, mae arweinwyr yn hyderus fod y dull hwn wedi arwain at ddarpariaeth gydlynus ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd.



**Darparu therapi**

Yn ystod tymor y gwanwyn, parhaodd ysgolion i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd gartref i fanteisio ar gymorth therapiwtig o bell ac wyneb yn wyneb, er enghraifft trwy ymweliadau â'r ysgol neu gan staff yr ysgol â'r cartref. At ei gilydd, dywed arweinwyr fod y cymorth hwn wedi cael ei werthfawrogi'n fawr gan deuluoedd. Rhoddodd staff ysgol gyngor a chymorth ymarferol i rieni a gofalwyr ar ystod eang o faterion therapiwtig. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys mynd â disgyblion ar deithiau cerdded ac ennyn eu diddordeb mewn gweithgareddau cerddoriaeth a chelf. Roedd ysgol arbennig arall yn lanlwytho gweithgareddau therapiwtig yn rheolaidd i deuluoedd fynd atynt gartref, yn cynnwys sesiynau gan therapydd cerdd yr ysgol.

Ers y Pasg, mae arweinwyr ar draws y ddau leoliad yn cadarnhau bod nifer gynyddol o wasanaethau therapiwtig arbenigol wedi ailddechrau darparu cymorth wyneb yn wyneb ar y safle. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn wedi cael eu cynorthwyo gan brofion llif unffordd ar gyfer staff allanol ac asesiadau risg manwl. Mewn tua hanner yr UCDau, dywed arweinwyr fod asiantaethau fel y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid, cwnsela ysgol, therapi chwarae a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wedi dychwelyd i'r UCD a'u bod bellach yn gweithio wyneb yn wyneb gyda disgyblion.

Yn **Ysgol Heronsbridge**, mae'r holl sesiynau therapi wyneb yn wyneb ar y safle wedi bod ar gael i'r holl ddisgyblion ers dechrau tymor yr haf, yn cynnwys y rhai sy'n parhau i gysgodi. Mae'r ysgol yn darparu ystafell sylfaen allanol i rieni ddod â'u plentyn, gan felly osgoi gorfod mynd i mewn i adeilad yr ysgol os bydd angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau therapi.

Dywed llawer o arweinwyr fod asiantaethau nad ydynt wedi gallu mynychu safleoedd wyneb yn wyneb yn parhau i gynorthwyo disgyblion ac ysgolion o bell. Er enghraifft, mewn un ysgol arbennig, mae'r therapydd galwedigaethol a'r ffisiotherapydd a gyflogir gan y bwrdd iechyd rhanbarthol yn parhau i gynorthwyo disgyblion ar-lein a thros y ffôn. Mewn ysgol arbennig arall, mae therapydd anifeiliaid anwes yr ysgol yn lanlwytho fideos rhyngweithiol i symbylu a chymell disgyblion. Yn ychwanegol, mae llawer o arweinwyr yn disgrifio'r modd y mae therapyddion wedi bod yn rhagweithiol yn cysylltu â rhieni i awgrymu gweithgareddau therapiwtig i gynorthwyo disgyblion yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf. Mae ychydig o arweinwyr yn nodi bod rhieni a gofalwyr wedi elwa ar y cymorth uniongyrchol hwn gan therapyddion trwy ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain o sut i gefnogi anghenion eu plentyn.

Mae ychydig o arweinwyr ar draws y ddau sector yn teimlo'n rhwystredig oherwydd ymagweddau anghyson at gymorth a therapi ar y safle ar draws gwahanol wasanaethau arbenigol, ac mewn gwahanol awdurdodau lleol. Mewn tua hanner yr UCDau, mae arweinwyr yn cadarnhau bod cymorth gan gwnselwyr, CAMHS a'r timau Gwasanaeth Ieuenctid a Chyfiawnder Ieuenctid yn parhau i gael eu cynnal ar-lein.

Mewn ychydig o achosion, dywed arweinwyr UCDau fod y rhwystredigaeth hon ac anawsterau o ran gallu manteisio ar wasanaethau wedi achosi iddynt gryfhau eu darpariaeth eu hunain yn y maes hwn. Er enghraifft, mae ychydig o UCDau wedi cryfhau eu cynnig lles eu hunain, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymwybyddiaeth

ofalgar, therapi cysgu a therapi sy'n ystyriol o drawma a ddarperir gan staff yr UCD ei hun.  Mewn un UCD, mae arweinwyr wedi contractio seicolegydd addysg ymgynghorol i beilota rhaglen o ymyriadau therapiwtig unigol gyda'u disgyblion.

Mae llawer o arweinwyr yn nodi bod darpariaeth therapiwtig fel hydrotherapi a therapi adlam yn parhau i fod yn gyfyngedig yn y rhan fwyaf o ysgolion o ganlyniad i arweiniad iechyd a diogelwch.  Dywed ychydig o arweinwyr nawr eu bod yn dechrau ailagor darpariaeth, yn amodol ar asesiadau risg llym ac adolygu gofalus.

## Dysgu proffesiynol

Dywed llawer o arweinwyr eu bod wedi blaenoriaethu datblygiad medrau staff i gefnogi anghenion corfforol, iechyd meddwl ac anghenion emosiynol uniongyrchol disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn y cyfnod clo diweddaraf.  Mewn lleiafrif o achosion, mae arweinwyr yn sôn am y modd y mae'r hyfforddiant hwn wedi helpu cryfhau gwydnwch emosiynol y staff eu hunain hefyd.

Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn cadarnhau bod y pwyslais hwn yn adlewyrchu blaenoriaethau datblygu tymor hwy'r lleoliad.  Er enghraifft, mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn nodi'r modd y mae staff wedi cael hyfforddiant defnyddiol gan therapyddion allanol.  Maent yn disgrifio'r modd y mae'r dysgu hwn wedi helpu gwella medrau staff allweddol, ac wedi gwella cydlynu'r cymorth ar draws y lleoliad.  Yn ei dro, mae hyn wedi galluogi'r lleoliad i wneud iawn am anawsterau wrth i ddisgyblion fanteisio ar gymorth therapiwtig ac arbenigol a gânt gan ddarparwyr allanol, yn awr ac yn y dyfodol.

Yn ychwanegol, mewn llawer o ysgolion ac UCDau, mae arweinwyr yn disgrifio sut mae dysgu proffesiynol wedi cynorthwyo staff i ymestyn eu dealltwriaeth o strategaethau addysgu i gefnogi disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol, yn enwedig lle mae'r ysgol wedi adolygu ei hymagweddau at y cwricwlwm yn ystod y pandemig.  Yn Ysgol Rhydygors, er enghraifft, mae dysgu proffesiynol diweddar wedi canolbwyntio ar ddysgu wedi'i seilio ar ymholi, datblygu medrau chwarae a dysgu yn yr awyr agored.

Mewn cyferbyniad â'n hadroddiadau cynharach, mae llawer o arweinwyr ar draws y ddau sector yn pwysleisio eu bod wedi cael mwy o gyfle yn ddiweddar i ganolbwyntio ar ddysgu proffesiynol i gefnogi'r blaenoriaethau strategol ehangach a nodwyd yn eu cynlluniau datblygu.

Yn **Ysgol Pen Coch**, mae rhaglen dysgu proffesiynol ddiweddar yr ysgol wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau a nodwyd o fewn cynllun gwelliant strategol yr ysgol.  Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys uchelgais yr ysgol i fod yn ddarparwr achrededig ar gyfer disgyblion awtistig a datblygu proffiliau synhwyraidd disgyblion.  Hefyd, mae wedi mynd i'r afael â datblygu cwricwlwm arbenigol yr ysgol yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru.  Cynigiwyd pecynnau dysgu proffesiynol i staff mewn ystod eang o feysydd, ar y safle ac ar-lein, wedi eu seilio ar hunanwerthusiad staff yn erbyn safonau proffesiynol athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu.  Mae'r rhain yn cynnwys testunau fel datblygu CDU, iechyd meddwl ac emosiynol, modiwlau diogelu gorfodol, rheoli ymddygiad, arwyddo ac iechyd a diogelwch.

Yng **Nghanolfan Addysg Conwy,** mae arweinwyr wedi blaenoriaethu rhaglen dysgu proffesiynol i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r ffocws diweddar ar gyfer dysgu proffesiynol a chydweithio rhwng staff wedi cynnwys effaith cynorthwywyr addysgu, metawybyddiaeth, a gwahaniaethu. Nododd y pennaeth fod cyfleoedd cynyddol i ddatblygu dysgu proffesiynol staff yn ystod y diwrnodau pan nad oeddent yn mynychu safle'r UCD wedi bod yn hynod fuddiol.

Mae bron pob arweinydd yn cadarnhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi parhau i gefnogi paratoadau ysgolion ar gyfer diwygio ADY a'r Cwricwlwm i Gymru. Disgrifiodd llawer o arweinwyr ar draws y ddau sector y modd y mae staff wedi parhau i ddatblygu ymagweddau'r ysgol at arferion yn canolbwyntio ar yr unigolyn, cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un dudalen, er enghraifft. Yn yr un modd, ar draws y ddau sector, mae arweinwyr yn cadarnhau bod staff yn parhau i ddatblygu cynllunio'r cwricwlwm ac asesu cyn diwygio'r cwricwlwm. Mewn un ysgol arbennig, er enghraifft, mae'r ysgol wedi derbyn grant gan y consortiwm rhanbarthol i gydweithio ag ysgolion eraill mewn prosiect adolygu rhwng cymheiriaid sy'n edrych ar strategaethau asesu ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hyn wedi cynnwys edrych ar asesiadau personoledig, defnyddio targedau CDU a fframwaith asesu masnachol ar-lein.

Yn **Ysgol Neuadd Brynllywarch**, nododd y pennaeth y bu grwpiau dysgu proffesiynol yn gweithio ar draws yr ysgol ar brosiect ymholi cod QR, sut i ddarparu adborth gwell ar-lein, sut i graffu ar ansawdd y gwaith sy'n cael ei storio ar-lein, a'i werthuso, a sut i ddefnyddio arolygon gyda disgyblion i'w helpu i werthuso eu hamgyffrediadau eu hunain fel dysgwyr. Nododd y pennaeth sut roedd datblygu hyfforddiant ar-lein yn gyflym wedi galluogi staff i fanteisio ar hyn ar amser a oedd yn gyfleus iddyn nhw, gyda llai o deithio a tharfu cyffredinol.

## Arweinyddiaeth

Mae bron pob arweinydd yn cadarnhau'r pwysau y maent wedi eu hwynebu yn ystod y cyfnod hwn wrth ymdrechu i gyflawni'r heriau gweithredol dyddiol sylweddol ac esblygol. Mae llawer o arweinwyr yn tystio i'r ymroddiad, yr hyblygrwydd a'r gwydnwch a ddangoswyd gan eu staff trwy gydol y cyfnod hwn. Mewn llawer o achosion, mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn ysbryd tîm ac ysbryd cymunedol, gyda llawer o arweinwyr yn nodi bod perthnasoedd wedi cryfhau dros y flwyddyn. Yng ngeiriau un arweinydd, 'mae gweithredoedd o garedigrwydd ar hap wedi dod yn rhywbeth cyffredin.'

Mae llawer o arweinwyr yn y ddau sector yn cadarnhau bod y prif heriau y maent wedi eu hwynebu eleni yn gysylltiedig â'r angen i sicrhau diogelwch disgyblion a staff tra'n darparu model dysgu ar y safle, dysgu o bell a dysgu cyfunol sy'n diwallu ystod eang anghenion y disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig ac UCDau. Yn ychwanegol, mae llawer o arweinwyr yn cyfeirio at y pwysau a achosir gan yr angen parhaus i addasu darpariaeth oherwydd bod rhaid i ddisgyblion a staff hunanynysu. Hefyd, maent yn cyfeirio at swm aruthrol yr arweiniad y bu'n rhaid i arweinwyr ei phrosesu yn gyflym iawn, a'r rhwystredigaeth a achosir pan na fydd hyn bob amser yn cwmpasu'r amgylchiadau penodol a wynebir mewn UCDau ac ysgolion arbennig.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae llawer o arweinwyr yn disgrifio'n fanwl sut maent wedi parhau i baratoi eu hysgolion a'u UCDau ar gyfer diwygio ADY a'r cwricwlwm yn ystod y cyfnod hwn. Yn gyffredinol, dywed y rhan fwyaf o arweinwyr eu bod yn croesawu dulliau unigoledig y diwygiadau ADY. Maent yn cadarnhau eu bod mewn sefyllfa dda o ran datblygu CDUau a phroffiliau un dudalen, a bod cynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn wedi hen ennill ei blwyf ar draws eu darpariaeth, yn cynnwys mewn prosesau adolygu blynyddol.

Mae llawer o arweinwyr yn tystio i'r gefnogaeth gref y maent wedi'i chael gan yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol wrth baratoi ar gyfer diwygio ADY. Fodd bynnag, mae ychydig o arweinwyr yn mynegi siom fod y gefnogaeth hon wedi'i chyfeirio'n bennaf at ysgolion prif ffrwd, ac nid yw bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu targedau perthnasol ar gyfer disgyblion o fewn y sector arbenigol. Yn ychwanegol, adeg y galwadau ymgysylltu hyn, mynegwyd pryderon gan ychydig o arweinwyr UCDau ynglŷn â'r diffyg eglurder parhaus ynghylch lleoliadau tymor byr, ac yn benodol, p'un a ddylai'r ysgol brif ffrwd, yr UCD neu'r awdurdod lleol fod yn gyfrifol am gynnal y CDU a darparu adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodwyd ynddo.

Yn ogystal â mynd i'r afael â blaenoriaethau diwygio cenedlaethol, mae llawer o arweinwyr yn disgrifio'r modd y maent wedi parhau â gwelliannau yn benodol i'w cyd-destun eu hunain i gefnogi datblygiad yr ysgol neu'r UCD yn y tymor hir. Mae ychydig o arweinwyr yn nodi ei bod yn dod yn haws gwneud hyn ohrerwydd bod disgyblion a staff yn ôl yn yr ysgol erbyn hyn. Mewn ychydig o achosion, mae graddfa'r newid a'r datblygu sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn sylweddol.

Yn **UCD Maes Derw**, symudodd staff a disgyblion o dair hen UCD Abertawe i adeilad newydd pwrpasol ym mis Ionawr 2021. Mae'r adeilad newydd wedi cael ei ddylunio'n ofalus i ddarparu'n benodol ar gyfer anghenion amrywiol y disgyblion sy'n mynychu'r UCD. Mae'r pennaeth wedi gweithio'n agos â'r awdurdod lleol trwy gydol y pandemig i sicrhau bod yr adeilad yn cynnig hyblygrwydd a diogelwch ar gyfer y gwahanol garfannau o ddisgyblion sy'n mynychu'r UCD. Yn ogystal ag ardaloedd addysgu dosbarthiadau helaeth, mae ardaloedd pwnc arbenigol ychwanegol a dwy neuadd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer amseroedd cinio hefyd. Mae gan bob un o dair adran yr ysgol fynediad at eu hardaloedd synhwyraidd eu hunain, sy'n cynnwys offer sy'n gweddu i anghenion ac oedrannau'r disgyblion. Mae gan bob ardal ofodau dynodedig sy'n addas ar gyfer sesiynau cwnsela neu les, yn ogystal â nifer fach o ardaloedd ymyrraeth bach ar gyfer gwaith llythrennedd neu rifedd ychwanegol.

**Monitro darpariaeth a sicrhau ansawdd**

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn y ddau sector yn disgrifio dulliau i fonitro lefel ymgysylltiad disgyblion ar gyfer dysgu disgyblion gartref fel rhan o ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer dysgu o bell neu ddysgu cyfunol. Yn ychwanegol, mae ychydig o arweinwyr yn amlinellu systemau ar gyfer monitro ansawdd addysgu ac asesu dysgu o bell a dysgu cyfunol, yn ogystal â chynnydd disgyblion mewn dysgu.

Yng **Nghanolfan Addysg Tai**, disgrifiodd y pennaeth y modd yr oedd arweinwyr yr UCD yn monitro addysgu ar-lein bob dydd yn ystod y cyfnod clo cyntaf, yn nodi ffyrdd y gallai addysgu gefnogi dysgu ar-lein y disgyblion yn fwy effeithiol. I ymateb i hynny, cynhaliwyd hyfforddiant staff ar wahanol offer i wella ansawdd y rhyngweithio ar-lein. Cynhaliwyd hyfforddiant pellach yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf i leihau amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu ar-lein. Er enghraifft, cynhaliwyd hyfforddiant ar agweddau fel sicrhau bod gweithgareddau ac adnoddau yn gweddu'n dda i alluoedd disgyblion ac eglurder y cyfarwyddyd.

Wedi i'r holl ddisgyblion ddychwelyd i addysg ar y safle, mae llawer o arweinwyr yn disgrifio'r modd y maent wedi addasu prosesau ar gyfer monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu i ystyried mesurau rheoli heintiau. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau rheolaidd gyda staff, adolygu cynllunio ac ymweld â gwersi ar-lein.

Yn **Ysgol Tir Morfa**, mae prosesau'r ysgol i fonitro addysgu a dysgu wedi esblygu i ymateb i ofynion COVID-19. Mae uwch arweinwyr wedi cynnal teithiau dysgu yn canolbwyntio ar dargedau CAU disgyblion heb fynd i mewn i swigod ystafell ddosbarth. Hefyd, cwblhawyd arsylwadau addysgu a dysgu trwy arsylwi arfer ar fideo. Roedd y broses hon yn cynnwys disgrifiadau athrawon a'u gwerthusiadau o'u harfer a'r deilliannau ar gyfer eu disgyblion. Hefyd, mae cynorthwywyr addysgu wedi bod yn arsylwi, gan adrodd ar ymgysylltiad disgyblion mewn gwersi.

**Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth**

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau yn pwysleisio gwerth cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae arweinwyr yn cyfeirio'n benodol at y cymorth buddiol y maent wedi'i gael o gyfarfodydd rheolaidd rhwydweithiau proffesiynol fel cymdeithasau penaethiaid ysgolion arbennig De a Gogledd Cymru a rhwydwaith penaethiaid UCDau CCAC (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru).

Yn ychwanegol, er gwaethaf y cyfyngiadau ar staff yn ymweld ag ysgolion eraill, disgrifiodd ychydig o arweinwyr ysgolion arbennig sut mae eu staff wedi gweithio o bell gyda'r staff o ysgolion eraill i rannu dysgu a threialu dulliau newydd.

Yn **Ysgol Neuadd Brynllywarch,** disgrifiodd y pennaeth y cydweithio cynyddol rhwng ei ysgol ei hun ac ysgol arbennig arall, lle roedd staff ar draws yr ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu templed adrodd newydd ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad a rhannu arfer dda mewn dysgu cyfunol. Yn yr un modd, mae staff o **Ysgol Tir Morfa** wedi bod yn cydweithio ag ysgolion eraill yn y consortiwm i ddatblygu cronfa o adnoddau ar y cyd i gefnogi dulliau dysgu cyfunol ac addysgu disgyblion ag awtistiaeth.

Mynegodd y rhan fwyaf o arweinwyr ar draws y ddau sector eu gwerthfawrogiad am y gefnogaeth roeddent wedi'i chael gan gydweithwyr o fewn yr awdurdod lleol trwy gydol cyfnod y pandemig, o ran y cyngor a'r arweiniad ymarferol y maent wedi'u cael, yn ogystal â chymorth personol gan uwch swyddogion o fewn yr awdurdod. Siaradodd llawer ohonynt am y modd yr oedd perthnasoedd gweithio gyda

swyddogion yr awdurdod lleol wedi parhau i gryfhau yn ystod y cyfnod hwn. Siaradodd llawer ohonynt am y modd y mae’r awdurdod lleol wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd i rannu gwybodaeth a galluogi penaethiaid i godi cwestiynau.

Mae ychydig o arweinwyr ysgolion ac UCDau yn cyfeirio at y cymorth buddiol y maent wedi’i gael gan ymgynghorwyr her y consortiwm rhanbarthol, yn enwedig lle roedd y swyddogion hyn yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gref o anghenion arbenigol y disgyblion sy’n mynychu’r ysgol neu’r UCD.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae arweinwyr yn pwysleisio rôl hynod gefnogol y corff llywodraethol trwy gydol y pandemig.

Yn **Ysgol Cae’r Drindod**, mae cadeirydd y llywodraethwyr wedi cyfarfod â chynrychiolwyr y cymdeithasau proffesiynol bob wythnos i drafod mesurau iechyd a diogelwch perthnasol ac unrhyw adborth o ymgynghori ag aelodau. Yn **Ysgol Pen Coch**, mae llywodraethwyr yr ysgol wedi parhau yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol i’r ysgol, yn monitro darpariaeth dysgu cyfunol yr ysgol trwy edrych ar waith disgyblion sy’n cael ei lanlwytho i’r ap dysgu ar-lein.